

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU****NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES****OFFERYNNAU STATUDOL****STATUTORY INSTRUMENTS****2005 Rhif 665 (Cy.55)****2005 No. 665 (W.55)****LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU****LOCAL GOVERNMENT  
WALES****Gorchymyn Llywodraeth Leol  
(Dangosyddion Perfformiad  
Gwerth Gorau) (Cymru) 2005****The Local Government (Best Value  
Performance Indicators) (Wales)  
Order 2005****NODYN ESBONIADOL****EXPLANATORY NOTE***(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)**(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu dangosyddion perfformiad, ar gyfer Cymru, y cyfeirir atynt wrth fesur perfformiad cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, wrth arfer eu swyddogaethau, o 1 Ebrill 2005.

This order specifies, for Wales, performance indicators by reference to which the performance of county councils and county borough councils, in exercising their functions, will be measured from 1 April 2005.

Drwy gyfeirio at yr Atodlenni, mae erthygl 2 yn nodi pa ddangosyddion perfformiad a gaiff eu defnyddio i fesur perfformiad pa swyddogaethau ar gyfer y gwahanol awdurdodau gwerth gorau.

Article 2 identifies, by reference to the Schedules, which performance indicators will be used to measure performance of which functions for the respective best value authorities.

Mae Atodlenni 1 i 8 yn manylu ar y dangosyddion rhagnodedig ar gyfer y gwahanol swyddogaethau fel a ganlyn:

Schedule 1 to 8 detail the prescribed indicators for different functions as follows:

Atodlen 1 - Gwasanaethau Cymdeithasol

Schedule 1 - Social Services

Atodlen 2 - Tai

Schedule 2 - Housing

Atodlen 3 - Addysg

Schedule 3 - Education

Atodlen 4 - Rheoli gwastraff

Schedule 4 - Waste Management

Atodlen 5 - Trafnidiaeth/Priffyrdd

Schedule 5 - Transport/Highways

Atodlen 6 - Diogelu'r cyhoedd

Schedule 6 - Public Protection

Atodlen 7 - Effeithlonrwydd Ynni

Schedule 7 - Energy Efficiency

Atodlen 8 - Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor

Schedule 8 - Housing Benefit and Council Tax Benefit

Dirymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002 gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2005.

The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2002 will be revoked by the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) (Revocation) Order 2005 which comes into force on the 1 April 2005.

**2005 Rhif 665 (Cy.55)**

**2005 No. 665 (W.55)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT  
WALES**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol  
(Dangosyddion Perfformiad  
Gwerth Gorau) (Cymru) 2005**

**The Local Government (Best Value  
Performance Indicators) (Wales)  
Order 2005**

*Wedi'i wneud*

*8 Mawrth 2005*

*Made*

*8 March 2005*

*Yn dod i rym*

*1 Ebrill 2005*

*Coming into force*

*1 April 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl iddo ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ofynnol, gan adran 4(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(1), iddo ymgynghori â hwy, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 4(1)(a) a (2) ac adran 29(1) o'r Ddeddf honno .

The National Assembly for Wales, having consulted those persons which it is required, by section 4(3) of the Local Government Act 1999(1), to consult, makes the following order in exercise of the powers conferred on it by section 4(1)(a) and (2) and section 29(1) of that Act.

**Enwi, cychwyn a chymhwysu**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

**Name, commencement and application**

1.-(1) The name of this order is the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2005 and it comes into force on 1 April 2005.

(2) This order applies only in relation to Wales.

**Dangosyddion Perfformiad**

2. Y dangosyddion perfformiad a bennir ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol, gan gynnwys, pan fo hynny'n briodol, dangosyddion perfformiad o ran swyddogaethau a arferir ganddynt fel awdurdodau gwaredu gwastraff, o ran y swyddogaethau a nodir yn y tabl isod, yw'r dangosyddion perfformiad a roddir yn y tabl hwnnw.

**Performance Indicators**

2. The performance indicators specified for county and county borough councils, including, where appropriate, performance indicators in relation to the exercise by them of functions as waste disposal authorities, are, in relation to the functions identified in the table below, the performance indicators set out in that table.

---

(1) 1999 p.27.

---

(1) 1999 c.27.

*TABL*

Swyddogaethau'r Awdurdodau Gwerth Gorau a'r Dangosyddion Perfformiad y Mesurir Perfformiad y Swyddogaethau hynny drwyddynt
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 1
<b>Tai</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 2
<b>Addysg</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 3
<b>Rheoli Gwastraff</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 4
<b>Trafnidiaeth/Priffyrdd</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 5
<b>Diogelu'r Cyhoedd</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 6
<b>Effeithlonrwydd Ynni</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 7
<b>Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau Dreth Gyngor</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 8

*TABLE*

Best Value Authority Functions and Performance Indicators by which performance of those functions will be measured
<b>Social Services</b>
All indicators in Schedule 1
<b>Housing</b>
All indicators in Schedule 2
<b>Education</b>
All indicators in Schedule 3
<b>Waste Management</b>
All indicators in Schedule 4
<b>Transport/Highways</b>
All indicators in Schedule 5
<b>Public Protection</b>
All indicators in Schedule 6
<b>Energy Efficiency</b>
All indicators in Schedule 7
<b>Housing Benefit and Council Tax Benefit</b>
All indicators in Schedule 8

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

8 Mawrth 2005

8 March 2005

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Erthygl 2

Article 2

DANGOSYDDION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

SOCIAL SERVICES INDICATORS

<b>Rhif y Dangosydd/ Indicator Number</b>	<b>Prif ddangosydd</b>	<b>Headline indicator</b>
NS1	Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd.	The rate of delayed transfers of care for social care reasons per 1,000 population aged 75 or over.
NS2	Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd):  (a) y rhoddwyd cymorth iddynt i fyw gartref, fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd; a  (b) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd.	The rate of older people (aged 65 or over):  (a) helped to live at home per 1,000 population aged 65 or over; and  (b) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over.
NS3	(a) canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal ar waith; a  (b) ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal yr oedd eu hail adolygiad (a oedd i fod ar ôl 4 mis) i fod wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn, canran gyda chynllun ar gyfer sefydlogrwydd adeg y dyddiad priodol.	(a) the percentage of first placements of looked after children during the year that began with a Care Plan in place; and  (b) for those children looked after whose second review (due at 4 months) was due in the year, a percentage with a plan for permanence at the due date.
NS4	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth.	The percentage of children looked after at 31 March who have experienced one or more change of school, during a period or periods of being looked after, which were not due to transitional arrangements, in the 12 months to 31 March.

ATODLEN 2

SCHEDULE 2

DANGOSYDDION TAI

HOUSING INDICATORS

<b>Rhif y Dangosydd/ Indicator Number</b>	<b>Prif ddangosydd</b>	<b>Headline indicator</b>
NS5	<p>(a) Nifer y teuluoedd digartref gyda phlant sy'n defnyddio llety gwely a brecwast, ac eithrio mewn argyfyngau; a</p> <p>(b) cyfartaledd nifer y dyddiau y mae pob aelwyd ddigartref yn treulio mewn llety dros dro.</p>	<p>(a) The number of homeless families with children using bed and breakfast accommodation, except in emergencies; and</p> <p>(b) The average number of days all homeless households spend in temporary accommodation.</p>
NS6	Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith rhwng cyflwyno person fel person digartref i'r awdurdod a chyflawni dyletswydd yr awdurdod at aelwydydd a geir yn ystatudol ddigartref.	The average number of working days between homeless presentation and discharge of duty for households found to be statutory homeless.
NS7	Canran yr anheddau anffit yn y sector preifat a wnaed yn ffit, a gaewyd neu a ddymchwelwyd o ganlyniad i gamau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.	The percentage of unfit private sector dwellings made fit, closed or demolished through direct action by the local authority.
NS8	<p>Nifer gyfartalog fesul 1000 o'r boblogaeth o'r canlynol:</p> <p>(i) unedau o gymorth fel y bo'r angen;</p> <p>(ii) lleoedd gwely y gellir eu cael yn uniongyrchol;</p> <p>(iii) lleoedd gwely mewn llety preswyl dros dro;</p> <p>(iv) lleoedd gwely mewn llety preswyl parhaol;</p> <p>(v) lleoedd gwely mewn llety gwarchod i bobl hyn; a</p> <p>(vi) gwasanaethau larwm cymunedol.</p>	<p>The average number, per 1000 head of population, of:</p> <p>(i) units of floating support;</p> <p>(ii) bed spaces in direct access;</p> <p>(iii) bed spaces in temporary residential accommodation;</p> <p>(iv) bed spaces in permanent residential accommodation;</p> <p>(v) bed spaces in sheltered accommodation for older people; and</p> <p>(vi) community alarm services.</p>

ATODLEN 3

SCHEDULE 3

DANGOSYDDION ADDYSG

EDUCATION INDICATORS

<b>Rhif y Dangosydd/ Indicator Number</b>	<b>Prif ddangosydd</b>	<b>Headline indicator</b>
NS9	Canran presenoldeb y disgyblion mewn ysgolion uwchradd.	Percentage of pupil attendance in secondary schools.
NS10	<p>Nifer a chanran:</p> <p>(i) yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheini sydd yng ngofal awdurdod lleol); a</p> <p>(ii) y disgyblion sydd yng ngofal awdurdod lleol, sydd mewn unrhyw sefydliad dysgu a gynhelir gan awdurdod lleol, sy'n cyrraedd 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol ac sy'n ymadael ag addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith, llawn amser, heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd.</p>	<p>The number and percentage of:</p> <p>(i) all pupils (including those in local authority care); and</p> <p>(ii) pupils in local authority care, in any local authority maintained learning setting, who attain the age of 16 during the school year and leave full-time education, training or work based learning without an approved external qualification.</p>
NS11	Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel a benderfynir gan Asesiadau Athrawon.	The percentage of pupils eligible for assessment at the end of Key Stage 2, in schools maintained by the local authority, achieving the Core Subject Indicator, as determined by Teacher Assessment.
NS12	Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu ar diwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel a benderfynir gan Asesiadau Athrawon.	The percentage of pupils eligible for assessment at the end of Key Stage 3, in schools maintained by the local authority, achieving the Core Subject Indicator, as determined by Teacher Assessment.
NS13	Cyfartaledd y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfer disgyblion 16 oed, mewn amgylcheddau dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol.	The average external qualifications point score for 16 year olds, in learning settings maintained by the local authority.
NS14	<p>(a) Nifer; a</p> <p>(b) chanran y disgyblion sy'n gymwys i'w hasesu, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf):</p> <p>(i) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2; a</p> <p>(ii) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.</p>	<p>(a) The number; and</p> <p>(b) the percentage of pupils eligible for assessment, in schools maintained by the local authority, receiving a Teacher Assessment in Welsh (first language):</p> <p>(i) at the end of Key Stage 2; and</p> <p>(ii) at the end of Key Stage 3.</p>



ATODLEN 4

SCHEDULE 4

DANGOSYDDION RHEOLI GWASTRAFF

WASTE MANAGEMENT INDICATORS

<b>Rhif y Dangosydd/ Indicator Number</b>	<b>Prif ddangosydd</b>	<b>Headline indicator</b>
NS15	(a) Cyfanswm mewn tunelli; a (b) chanran  y gwastraff trefol  (i) a aildddefnyddir ac/neu a ailgylchir; a (ii) a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall.	(a) The total tonnage; and (b) percentage  of municipal waste:  (i) reused and/or recycled; and (ii) composted or treated biologically in another way.
NS16	(a) Cyfanswm mewn tunelli; a (b) chanran  y gwastraff trefol pydradwy a anfonir at safleoedd tirlenwi.	(a) The total tonnage; and (b) percentage  of bio-degradable municipal waste sent to landfill sites.

ATODLEN 5

SCHEDULE 5

DANGOSYDDION CLUDIANT/PRIFFYRDD

TRANSPORT/HIGHWAYS INDICATORS

<b>Rhif y dangosydd/ Indicator Number</b>	<b>Prif ddangosydd</b>	<b>Headline indicator</b>
NS17	<p>Cyflwr:</p> <p>(a) prif ffyrdd (dosbarth A); a</p> <p>(b) ffyrdd dosbarthedig/nad ydynt yn brif ffyrdd.</p>	<p>Condition of:-</p> <p>(a) principal (A) roads; and</p> <p>(b) non-principal/classified roads</p>

ATODLEN 6

SCHEDULE 6

DANGOSYDDION DIOGELU'R CYHOEDD

PUBLIC PROTECTION INDICATORS

<b>Rhif y dangosydd/ Indicator number</b>	<b>Prif ddangosydd</b>	<b>Headline indicator</b>
NS18	<p>(a) Nifer y busnesau uchel eu risg sy'n atebol i gael arolygiadau wedi'u rhaglenni neu weithgarwch gorfodi amgen yn ystod y flwyddyn; a</p> <p>(b) canran y busnesau hyn a oedd yn agored i arolygiad wedi'i raglennu neu weithgarwch gorfodi arall a arolygwyd/a oedd yn destun gweithgarwch gorfodi arall, o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Safonau Masnach</li> <li>- Hylendid Bwyd;</li> <li>- Iechyd Anifeiliaid; ac</li> <li>- Iechyd a Diogelwch.</li> </ul>	<p>(a) The number of high-risk businesses liable to a programmed inspection or alternative enforcement activity during the year; and</p> <p>(b) the percentage of these businesses that were liable to a programmed inspection or alternative enforcement activity that were inspected/subject to alternative enforcement activity, as regards:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Trading Standards;</li> <li>- Food Hygiene;</li> <li>- Animal Health; and</li> <li>- Health and Safety.</li> </ul>

ATODLEN 7

SCHEDULE 7

DANGOSYDDION EFFEITHLONRHYDD YNNI

ENERGY EFFICIENCY INDICATORS

<b>Rhif y dangosydd/ Indicator number</b>	<b>Prif ddangosydd</b>	<b>Headline indicator</b>
NS19	<p>(a) Canran y newid mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc cyhoeddus annomestig; a</p> <p>(b) canran y newid yn y defnydd o ynni ac o allyriadau carbon deuocsid yn y stoc dai.</p>	<p>(a) Percentage change in carbon dioxide emissions in the non-domestic public stock; and</p> <p>(b) percentage change in energy use and carbon dioxide emissions in the housing stock.</p>

ATODLEN 8

SCHEDULE 8

DANGOSYDDION Y BUDD-DALIADAU TAI A BUDD-DALIADAU'R DRETH GYNGOR

HOUSING BENEFIT AND COUNCIL TAX BENEFIT INDICATORS

<b>Rhif y dangosydd/ Indicator number</b>	<b>Prif ddangosydd</b>	<b>Headline indicator</b>
NS20	<p>Diogelu'r budd-dal tai:</p> <p>(a) nifer yr hawlwyr yr ymwelwyd â hwy fesul 1,000 baich achos;</p> <p>(b) nifer yr ymchwilywyr i dwyll a gyflogwyd fesul 1,000 baich achos;</p> <p>(c) nifer yr ymchwiliadau i dwyll fesul 1,000 baich achos; ac</p> <p>(ch) nifer yr erlyniadau a'r sancsiynau fesul 1,000 baich achos.</p>	<p>Housing Benefit security:-</p> <p>(a) the number of claimants visited per 1,000 caseload;</p> <p>(b) the number of fraud investigators employed per 1,000 caseload;</p> <p>(c) the number of fraud investigations per 1,000 caseload; and</p> <p>(d) the number of prosecutions and sanctions per 1,000 caseload.</p>
NS21	<p>Cyflymder y prosesu:</p> <p>(a) cyfartaledd yr amser a gymerwyd i brosesu hawliadau newydd; a</p> <p>(b) cyfartaledd yr amser a gymerwyd i brosesu hysbysiadau o newidiadau mewn amgylchiadau.</p>	<p>Speed of processing:-</p> <p>(a) average time for processing new claims; and</p> <p>(b) average time for processing notification of change of circumstances.</p>
NS22	<p>Cywirdeb y prosesu:</p> <p>(a) canran yr achosion lle'r oedd y swm o fudd-dal a gyfrifwyd i fod yn ddyledus yn gywir ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael adeg gwneud y penderfyniad, a hynny ar gyfer sampl o achosion a wiriwyd ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud; a</p> <p>(b) y ganran o ordaliadau budd-dal tai a adenillwyd.</p>	<p>Accuracy of processing: -</p> <p>(a) the percentage of cases for which the calculation of the amount of benefit due was correct on the basis of the information available for the decision for a sample of cases checked post decision; and</p> <p>(b) the percentage of housing benefit overpayments recovered.</p>





---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2005 Rhif 665 (Cy.55)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

Gorchymyn Llywodraeth Leol  
(Dangosyddion Perfformiad  
Gwerth Gorau) (Cymru) 2005

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2005 No. 665 (W.55)**

**LOCAL GOVERNMENT  
WALES**

The Local Government (Best Value  
Performance Indicators) (Wales)  
Order 2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**

W34/3/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091091-5



9 780110 910918